

Cyhoeddi adroddiad ar ffynonellau heintiadau Campylobacter ymysg bodau dynol

Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan yr ASB yn cadarnhau taw ieir yw ffynhonnell y mwyafrif o achosion o Gampylobacter ymysg bodau dynol, ac yna anifeiliaid eraill fel defaid, moch, a gwartheg. Gellid bod wedi trosglwyddo'r haint hwn yn uniongyrchol i bobl trwy fwyd, ond gallai hefyd fod wedi ei drosglwyddo trwy halogiad d'r neu'r amgylchedd.

Mae'r Astudiaeth Priodoli Ffynhonnell Campylobacter, a lansiwyd yn 2015 fel rhan o Raglen Lleihau Campylobacter ehangach a pharhaus yr ASB, hefyd yn datgelu cynnydd mewn ymwrthedd gwrthficrobaidd o fewn straenau Campylobacter rhwng 1997 a 2018. Mae gwaith yn parhau yn y maes hwn i bennu'r effaith lawn.

Meddai Pennaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil yr ASB, Rick Mumford:

“Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i ddeall yn well achosion o heintiadau Campylobacter, ac i lywio gwaith pellach ar heintiadau a gludir gan fwyd. Bydd hyn hefyd yn helpu i nodi meysydd ymchwil pellach i'w harchwilio wrth i ni geisio lleihau baich cyffredinol heintiadau Campylobacter yn y DU.”

Amcangyfrifir bod tua 300,000 o achosion o Gampylobacter ymysg bodau dynol yn deillio o fwyd bob blwyddyn yn y DU, a hynny gyfanswm o tua 630,000 o achosion. Mae Campylobacter yn byw yn llwybr coluddol ystod eang o famaliaid, adar, a hyd yn oed bryfed.

Cychwynnodd ymchwilwyr ar y prosiect hwn i bennu cronfeydd allweddol heintiadau campylobacter ymysg bodau dynol, ac i helpu i nodi strategaethau rheoli risg a allai fod yn effeithiol. Asesodd y prosiect samplau gan gleifion o ddau leoliad – safle trefol cynrychioliadol yng Ngogledd Tyneside, a safle gwledig yn Swydd Rhydychen – ochr yn ochr â bwydydd a samplwyd o safleoedd manwerthu yng Nghaerefrog, Caersallog, a Llundain.

O ran ymwrthedd gwrthficrobaidd, datgelodd yr astudiaeth gynnydd mewn ymwrthedd fflworocwinolon a thetrasyclin mewn arunigion C.jejuni o heintiadau mewn bodau dynol rhwng 1997 a 2018. Roedd ymwrthedd fflworocwinolon yn fwy cyffredin mewn arunigion C.jejuni o ieir nag o anifeiliaid eraill, tra oedd ymwrthedd tetrasyclin yn fwy cyffredin mewn arunigion o ddofednod a moch nag o anifeiliaid cnoi cil. Mae ymwrthedd i facrolidau ac aminoglycosidau yn parhau i fod yn isel.

Mae'r rhan fwyaf o bobl a gaiff eu heintio â Champylobacter yn gwella'n llawn ac yn gyflym, ond gallai achosi problemau iechyd hirdymor a difrifol i rai, gan gynnwys plant ifanc a'r henoed.

Gallwch chi helpu i gadw eich teulu yn ddiogel trwy goginio eich bwyd yn gywir, ac osgoi croeshalogi trwy sicrhau hylendid personol da.

Darllenwch [yr adroddiad llawn fan hyn](#) (Saesneg yn unig.) Fel rhan o'r prosiect, crëwyd bwrdd stori data y gellir ei weld ar-lein.

I ddarganfod rhagor am y clefyd hwn a gludir gan fwyd, ewch i'n [tudalen we Campylobacter](#).